ADRODDIAD BLYNYDDOL

PWYLLGOR

SAFONAU YMDDYGIAD

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

2002 - 2003

Cynnwys

1. Cyflwyniad

2. Cylch Gwaith y Pwyllgor

3. Rhaglen Waith a Gweithgareddau

   - Adolygu'r Gweithdrefnau Safonau
   - Y Flaenraglen Waith
   - Y Seiri Rhyddion
   - Y Cynghorydd Annibynnol
   - Cofrestr Buddiannau'r Aelodau
   - Datgan Buddiannau ar Lafar
   - Materion Eraill

4. Casgliadau'r Pwyllgor ar Safonau Moesegol (Rheol Sefydlog 16.1(v))

Atodiadau

Atodiad A: Cylch gorchwyl y Pwyllgor
Atodiad B: Adolygu'r Gweithdrefnau Safonau: Adroddiad Woodhouse

Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD

ADRODDIAD I'R CYNULLIAD

1. Cyflwyniad

1.1 Dyma bedwerydd adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16. Mae'n ymwneud â'r 12 mis o 1 Awst 2002 tan 31 Gorffennaf 2003.

1.2 Mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn un o chwe Phwyllgor Sefydlog y Cynulliad. Dyma aelodau'r Pwyllgor yn ystod cyfnod yr adroddiad:

Y Cynulliad Cyntaf
Cadeirydd y Pwyllgor tan fis Tachwedd 2002 oedd David Melding AC, a'r aelodau oedd Cynog Dafis, Christine Gwyther (tan 22.01.03), Brian Hancock (tan 29.10.02), Pauline Jarman (o 29.10.02), Gareth Jones, Lynne Neagle, Karen Sinclair, Gwenda Thomas a Kirsty Williams. Penodwyd Karen Sinclair yn Gadeirydd dros dro ar gyfer un cyfarfod.

Yr Ail Gynulliad
Cadeirydd y Pwyllgor yw Kirsty Williams, a'r aelodau yw Jeff Cuthbert, David Davies, Jocelyn Davies, Tamsin Dunwoody Kneafsey, Sandy Mewies, Lynne Neagle, Gwenda Thomas, Owen John Thomas a Brynle Williams.

1.3 Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i aelodau'r Cynulliad yn ystod y Cynulliad Cyntaf am eu cyfraniad i waith y Pwyllgor yn y cyfnod hwnnw, ac yn arbennig felly i David Melding, a fu'n Gadeirydd ar y Pwyllgor o fis Tachwedd 1999 tan fis Tachwedd 2002, pan ymddiswyddodd ar egwyddor wedi i'r Cynulliad wrthod cynigion y Pwyllgor ar y Seiri Rhyddion.

1.4 Yn ei bedwaredd flwyddyn, cyfarfu'r Pwyllgor dair gwaith. Ni ystyriwyd cwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad yn ystod y flwyddyn. Yn unol â'r rheolau sefydlog, cynhaliwyd y cyfarfodydd yn gyhoeddus ac roeddent ar gael i'w darlledu.

1.5 Ceir isod fanylion rhaglen waith a gweithgareddau'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

2. Cylch Gwaith y Pwyllgor

2.1 Mae Rheol Sefydlog 16 yn nodi cylch gwaith y Pwyllgor Safonau, a'r gofynion o ran aelodaeth, rôl y Cynghorydd Annibynnol ar safonau, cyfarfodydd ac adroddiadau. Mae copi o Reol Sefydlog 16 yn Atodiad A.

2.2 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried cwynion a gyfeirir ato gan y Llywydd ac unrhyw faterion o egwyddor yn ymwneud ag ymddygiad Aelodau'r Cynulliad yn gyffredinol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn goruchwylio Cofrestr Buddiannau'r Aelodau.

3. Rhaglen Waith a Gweithgareddau

3.1 Er na chyfeiriwyd cwynion at y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn, roedd llwyth gwaith y Pwyllgor yn dal yn drwm. Bu'r Pwyllgor yn ystyried nifer o faterion hirdymor a manwl, a gwnaed llawer o waith yn ystod y flwyddyn ar y canlynol:

<u>Adolygu'r Gweithdrefnau Safonau</u>

3.2 Ym mis Tachwedd 2001, penodwyd yr Athro Diana Woodhouse yn gynghorydd arbenigol i'r Pwyllgor Safonau, i adolygu Gweithdrefnau Safonau yn y Cynulliad. Cyhoeddwyd adroddiad yr adolygiad, a luniwyd gan yr Athro Woodhouse, ym mis Mawrth 2003 ac anfonwyd copi at bob Aelod o'r Cynulliad.

3.3 Canolbwyntiodd yr adolygiad ar bum prif faes: awdurdodaeth y Pwyllgor; effeithiolrwydd y drefn gwynion; rôl y Llywydd; rôl y Cynghorydd Annibynnol ar Safonau Ymddygiad; a threfniadau sefydliadau democrataidd eraill y DU. Gwnaeth 31 o argymhellion yn y meysydd a ganlyn:

i. cynnwys a chyflwyniad y Cod Safonau;
ii. y materion a'r symiau y dylid eu cofrestru yng Nghofrestr Buddiannau'r'Aelodau;
iii. rolau o ran rhoi cyngor i'r Aelodau ac ymchwilio i gwynion yn erbyn Aelodau;
iv. y ffordd y gwrandewir ar gwynion a'r sancsiynau sydd ar gael yn erbyn Aelodau y ceir eu bod wedi torri'r Cod;
v. rôl y grwpiau gwleidyddol o ran cynnal "Diwylliant Safonau"; a
vi. materion lle mae angen newid y ddeddfwriaeth sylfaenol.

3.4 Er bod Etholiad Cyffredinol y Cynulliad wedi digwydd yng nghanol hyn oll, mae'r Pwyllgor eisoes wedi bwrw iddi i ystyried a rhoi ar waith argymhellion yr adroddiad. Mae dau o'r argymhellion eisoes wedi'u rhoi

ar waith ac mae'r Pwyllgor wedi derbyn y rhan fwyaf o'r lleill mewn egwyddor, yn amodol ar wneud rhagor o waith manwl ar y goblygiadau.

3.5 Mae agenda sylweddol i argymhellion Woodhouse, a bydd hynny'n cymryd llawer o amser y Pwyllgor dros y 12 i 18 mis nesaf. Adlewyrchir hynny ym Mlaenraglen Waith y Pwyllgor.

Y Flaenraglen Waith

3.6 Ym mis Gorffennaf 2003, cytunodd y Pwyllgor ar ei flaenraglen waith yn amlinellu'r meysydd y bydd yn canolbwyntio arnynt dros y 12-18 mis nesaf.

3.7 Rhoddwyd blaenoriaeth i ddau faes pwysig:

i. Yr Adolygiad o Weithdrefnau Safonau'r Cynulliad gan yr Athro Woodhouse a threfniadau Safonau Ymddygiad y Cynulliad; a

ii. Y Seiri Rhyddion

3.8 Bydd hefyd yn ystyried, law yn llaw ag adolygiad Woodhouse, rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd Annibynnol ar Safonau Ymddygiad yn y dyfodol.

Y Seiri Rhyddion

3.9 Bu'r Pwyllgor yn ystyried yn fanwl iawn y rheidrwydd ar Aelodau'r Cynulliad i gofrestru aelodaeth o'r Seiri Rhyddion. Yn sgil hynny, argymhellodd y Pwyllgor i'r Cyfarfod Llawn y dylid dileu'r Rheol Sefydlog ar gofrestru aelodaeth o'r Seiri Rhyddion a rhoi yn ei lle reol a fyddai'n gyfreithiol gryfach. Byddai'n rhaid i'r Aelodau gofrestru eu bod yn aelodau o'r Seiri Rhyddion o hyd, ond byddai'n rhaid cofrestru hefyd eu bod yn aelodau o gyrff a mudiadau preifat eraill.

3.10 Ystyriodd y Cynulliad adroddiad y Pwyllgor ar Seiri Rhyddion mewn Cyfarfod Llawn ar 13 Tachwedd 2002. Cynigiodd y Pwyllgor yn ei adroddiad y dylid creu rheol sefydlog newydd ar gyfer 'Cofnodi Aelodaeth o Gymdeithasau', ac y dylid diwygio'r rheolau sefydlog perthnasol a'r canllawiau'n unol â hynny.

3.11 Fodd bynnag, ni chafodd y cynnig i gymeradwyo argymhellion y Pwyllgor y mwyafrif o ddwy ran o dair sydd ei angen a gwrthodwyd y cynnig o 29 i 15 gyda 3 Aelod yn ymatal.

3.12 Aeth y Pwyllgor ati i ailystyried y mater a chytunodd bod y casgliadau a gyflwynwyd i'r Cyfarfod Llawn yn eu hanfod yn gywir, sef:

i. Nad oedd tystiolaeth gadarn o gamymddygiad yn erbyn y Seiri Rhyddion fel sefydliad.
ii. Ei bod yn anodd pennu a yw'r Seiri Rhyddion yn sefydliad unigryw, a fyddai'n cyfiawnhau eu trin yn wahanol i bob sefydliad arall.
iii. Pennwyd nad oedd gan unrhyw gorff deddfwriaethol arall yn y DU ofyn tebyg i un y Cynulliad i gofrestru aelodaeth o'r Seiri Rhyddion.

3.13 Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor hefyd wedi cytuno y byddai angen ystyried hyn ymhellach cyn mynd yn ôl at y Cyfarfod Llawn. Cytunodd y Pwyllgor hefyd y byddai angen atgoffa Aelodau'r Cynulliad o oblygiadau cyfreithiol gofynion y Rheol Sefydlog fel ag y mae a'r ffordd y byddai'r gofynion newydd yn effeithio arnynt.

3.14 Mae'r Pwyllgor yn dal o'r farn ei bod yn anodd amddiffyn mewn egwyddor y gofynion fel ag y maent, a sôn am y Seiri Rhyddion yn benodol, a'i bod yn bosib y gallai rhywun ddwyn achos cyfreithiol llwyddiannus.

3.15 Mae hyn yn fater sylweddol ym mlaenraglen waith y Pwyllgor. Bwriad y Pwyllgor yw ystyried y mater ymhellach, a rhoi adroddiad i'r Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn ddechrau 2004.

Y Cynghorydd Annibynnol ar Safonau Ymddygiad

3.16 Mae Rheol Sefydlog 16.3 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad benodi rhywun i roi cyngor a chymorth i'r Llywydd ar unrhyw fater yn ymwneud ag ymddygiad Aelodau'r Cynulliad a chynorthwyo'r Pwyllgor, drwy wahoddiad, yn ei ymchwiliadau. Penodwyd Mr Richard Penn yn Gynghorydd Annibynnol ar Safonau Ymddygiad ar 15 Mawrth 2000. Daeth ei gontract 3 blynedd cyntaf i ben ar 14 Mawrth 2003.

3.17 Rôl y Cynghorydd Annibynnol yw un o bum prif thema adroddiad yr Athro Diana Woodhouse. Bydd y Pwyllgor yn ystyried y mater yn fanwl yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, a bydd yn rhoi adroddiadau i'r Cynulliad fel y bo'n briodol.

3.18 Cytunodd y Pwyllgor felly'n eithaf cynnar y dylid estyn y penodiad bob blwyddyn, hyd nes y gorffennir ystyried rôl y Cynghorydd, a hynny ar yr un amodau a thelerau.

3.19 Mae'r Pwyllgor yn cydnabod rôl allweddol y Cynghorydd Annibynnol o ran helpu'r Llywydd a'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Bu Mr Penn yn

weithgar yn y ddwy rôl a hoffai'r Pwyllgor ddiolch iddo am ei gyfraniad i'w waith.

Cofrestr Buddiannau'r Aelodau

3.20 Yn ystod y flwyddyn bu'r Swyddfa Gyflwyno'n cadw ac yn diweddaru'r Gofrestr yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd a'r Rheolau Sefydlog.

3.21 Mae adroddiad 'byw' ar y Gofrestr ar gael ar-lein ac mae'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd, wrth i fanylion ddod i law. Mae adroddiad ar y Gofrestr, sy'n rhoi darlun llawn o'r holl gofnodion yn y Gofrestr yn ystod y Cynulliad Cyntaf, hefyd ar gael.

3.22 Mae Clerc y Pwyllgor yn dal i roi adroddiadau ar lafar ar ddatblygiadau'r Gofrestr yng nghyfarfodydd y Pwyllgor. Mae'r Swyddfa Gyflwyno yn dal i gael ymholiadau ynghylch buddiannau Aelodau unigol a'r Aelodau'n gyffredinol. Daw'r rhan fwyaf o'r ymholiadau gan y cyhoedd a'r wasg. Fodd bynnag, ychydig o ddiddordeb a fu yn y Gofrestr yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.

Datgan Buddiannau ar Lafar

3.23 Lleisiwyd pryder nad oedd yr Aelodau wedi deall yn iawn y trefniadau ar gyfer datgan buddiannau yn y Cyfarfod Llawn a/neu'r Pwyllgorau a bod datgan buddiannau ar lafar yn lleihau urddas y Cynulliad yn y Cyfarfodydd Llawn.

3.24 Bu'r Pwyllgor yn ystyried y trefniadau hyn ac a ellid eu symleiddio er mwyn peidio ag amharu ar y cyfarfodydd, a chynnal uniondeb a chadernid y trefniadau presennol.

3.25 Casgliad y Pwyllgor oedd efallai bod gofynion y Cynulliad ar hyn o bryd yn rhoi gormod o bwys ar Adran 72(1) (cofrestru buddiannau) ac nad ydynt yn rhoi digon o sylw i Adran 72(2) (datgan buddiannau – yn arbennig fuddiannau ariannol).

3.26 Er mwyn unioni hynny, cynigiodd y Pwyllgor welliannau i'r Rheolau Sefydlog a oedd yn eu gwneud yn fwy eglur a syml, ac yn cynnal safonau cadarn heb eu gwneud yn llai tryloyw.

3.27 Cyflwynwyd cynigion y Pwyllgor gerbron y Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn ar 5 Tachwedd 2002, a chawsant eu derbyn yn unfrydol gan y rhai a bleidleisiodd.

3.28 Wrth fynd ati i symleiddio'r gweithdrefnau, rydym wedi sicrhau bod yr holl fuddiannau blaenorol yr oedd eu angen eu cofrestru'n aros ac nad yw hyn yn effeithio ar eu statws. Mae'n rhaid i'r Aelodau gofrestru'r buddiannau a restrir yn yr Atodiad i Reol Sefydlog 4 o hyd. Os bydd yr Aelodau'n cymryd rhan yn nhrafodion y Cynulliad heb gofrestru eu buddiannau'n iawn, fe ellid dwyn achos cyfreithiol yn eu herbyn o hyd. Cyhoeddodd Clerc y Pwyllgor gyngor pellach i Aelodau'r Cynulliad ym mis Mehefin 2003 ar faterion i'w hystyried wrth benderfynu a ddylid datgan buddiannau ar lafar.

3.29 Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y gweithdrefnau newydd yn tynnu sylw'r Aelodau a'r cyhoedd at bwysigrwydd y Gofrestr Fuddiannau a'u bod yn peri y bydd llai o amharu ar y Cyfarfodydd Llawn.

Materion Eraill

3.30 Yn ystod y flwyddyn bu'r Pwyllgor yn ystyried ac yn rhoi cyngor i'r Llywydd ac eraill ar amryw o faterion. Yn eu plith roedd gollwng adroddiadau cyfrinachol y Pwyllgorau a Chofrestru Grwpiau Trawsbleidiol.

4. Casgliadau'r Pwyllgor ar Safonau Moesegol (Rheol Sefydlog 16.1(v))

4.1 Wrth adolygu'r Gweithdrefnau Safonau, bu'r Pwyllgor hefyd yn ystyried sut i ddatblygu'r safonau moesegol presennol i greu "Diwylliant Safonau" yn y Cynulliad.

4.2 Fel y nodwyd uchod, ni chyfeiriwyd cwynion at y Pwyllgor yn ystod cyfnod yr adroddiad. O'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn ystod cyfnod yr adroddiad, ymddengys nad oes llawer o le i bryderu am safonau moesegol yr Aelodau. Mae'r Pwyllgor o'r farn, fodd bynnag, na ddylid llaesu dwylo os ydym am gynnal y safonau moesegol uchaf.

Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD, Rhagfyr 2003

ATODIAD A

RHEOL SEFYDLOG 16 – Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Teitl a Chylch Gwaith

16.1 Bydd Pwyllgor Safonau Ymddygiad, a fydd:

(i) yn ymchwilio i unrhyw gwyn y cyfeirir ato gan y Llywydd fod Aelod heb gydymffurfio â rheol sefydlog 4 neu unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad ynglyn â buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill yr Aelodau, yn adrodd ar y gwyn honno ac, os bydd yn briodol, yn argymell y camau y dylid eu cymryd mewn perthynas â'r gwyn, neu fod un o Ysgrifenyddion y Cynulliad heb gydymffurfio â gofynion paragraff 2.8;

(ii) yn ymchwilio i unrhyw gwyn a gyfeirir ato gan y Llywydd fod Aelod heb gydymffurfio ag unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad ynglyn â safonau ymddygiad yr Aelodau neu'r canllawiau i'r Gweinidogion y bydd y Cynulliad wedi'u cymeradwyo yn unol â pharagraff 2.7, yn adrodd ar y gwyn honno ac, os bydd yn briodol, yn argymell y camau y dylid eu cymryd mewn perthynas â'r gwyn neu'r Cod Ymddygiad o dan Reol Sefydlog 36.14;

(iii) yn ystyried unrhyw fater o egwyddor ynglyn ag ymddygiad yr Aelodau yn gyffredinol;

(iv) yn goruchwylio'r trefniadau ar gyfer llunio Cofrestr Buddiannau'r Aelodau, a ffurf a chynnwys y Gofrestr, a'r trefniadau ar gyfer cadw'r Gofrestr a sicrhau ei bod yn hygyrch; a

(v) yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad ar nifer y cwynion a wnaed i'r Llywydd o dan (i) a (ii) a'r camau a gymerwyd, ac ar ei gasgliadau ynglyn â safonau moesegol wrth gynnal busnes y Cynulliad.

Aelodaeth

16.2 Bydd y Cynulliad yn ethol Aelod i gadeirio'r Pwyllgor, ynghyd ag Aelodau eraill a etholir cyn belled ag y bo'n ymarferol i adlewyrchu cydbwysedd y grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad. Ni fydd y Llywydd yn aelod o'r Pwyllgor, ond bydd ganddo ef neu ganddi hi hawl i fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod Pwyllgor, neu i gyflwyno papurau iddo, er mwyn tynnu ei sylw at unrhyw ystyriaethau y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

Cynghorydd Annibynnol

16.3 Bydd y Cynulliad yn penodi person nad yw'n Aelod o'r Cynulliad nac yn aelod o'i staff i roi cyngor a chymorth i'r Llywydd ar unrhyw fater ynglyn ag ymddygiad yr Aelodau; a gall y Pwyllgor, yn ogystal â phenodi ei gynghorydd ei hun fel y bo'n briodol o dan baragraff 8.14, wahodd y sawl a benodir gan y Cynulliad i ymchwilio i faterion ffeithiol sy'n codi o unrhyw fater dan ei sylw.

Cyfarfodydd

16.4 Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod cyn gynted ag y bo modd ar ôl i gwyn gael ei chyflwyno iddo gan y Llywydd; ac ar adegau eraill y bydd y cadeirydd yn ei gynnull.

16.5 Gall y Pwyllgor gyfarfod yn gyhoeddus neu'n breifat, ond wrth ystyried cwyn, bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn breifat oni fydd yn penderfynu fel arall. Os bydd ef neu hi'n gofyn am hynny, caniateir i unrhyw Aelod sydd neu a all fod yn destun ymchwiliad gan y Pwyllgor gyflwyno sylwadau llafar neu ysgrifenedig iddo a gall person arall (a all gymryd rhan yn y trafodion gyda chaniatâd y cadeirydd) fod yn bresennol gydag ef neu hi mewn gwrandawiadau llafar.

Adroddiadau

16.6 Os bydd y Pwyllgor wedi ymchwilio i gwyn sydd wedi'i chyflwyno iddo gan y Llywydd, bydd yn adrodd i'r Cynulliad cyn gynted ag y bo modd ar ôl cwblhau'r adroddiad ar yr ymchwiliad. Gall y Pwyllgor adrodd i'r Cynulliad ar faterion eraill o fewn ei gylch gwaith o bryd i'w gilydd.